EICH CANLLAW I

HAF 2011

Mae'r canllaw hwn yn rhoi gwybodaeth i chi am gyfleoedd a digwyddiadau sy'n cael eu cynnal ledled Bwrdeistref Caerffili yn ystod haf 2011. Mae'r canllaw hwn ar gyfer plant, pobl ifanc a'u rhieni / gwarcheidwaid. Gall y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd rhoi gwybodaeth fanwl am yr holl weithgareddau a gynhwysir a llawer llawer mwy.

CYNNWYS

Cynlluniau Canolfan Hamdden 2
Nofio am Ddim 3
Cardiau Smart 3
SYDIC 4
Youth 4U 4
Diwrnod Chwarae Cenedlaethol 5
Her Darllen 6
Timau Chwarae Tair Sir 6
Diwrnodau Hwyl i'r Teulu 6
Prosiect Chwarae Antur 7
Llancaiach Fawr 7
Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd 8

CYNLLUNIAU CANOLFAN HAMDDEN...

Bydd cynlluniau Haf 2011 mewn 4 Canolfan Hamdden, ar gyfer plant a phobl ifanc rhwng 8-12 oed;

Canolfan Hamdden Rhisga:
25ain Gorffennaf - 26ain Awst - £5.00 y dydd

Canolfan Hamdden Heolddu:
1af Awst - 22ain Awst - £4.00 y dydd

Canolfan Hamdden Caerffili:
25ain Gorffennaf - 31ain Awst - £5.00 y dydd neu £20.00 yr wythnos

Canolfan Hamdden Trecelyn:
25ain Gorffennaf - 26ain Awst - £4.50 y dydd

Mae talebau Gweithgareddau Chwaraeon ar gael yn siop Asda, gofynnwch i Wasanaethau Cwsmer ar gyfer cyfraddau gostyngol i gael mynediad i gynlluniau Ganolfan Chwaraeon.

Bydd **Chwaraeon Caerffili** yn cynnal Cynllun Chwaraeon ar gyfer pobl ifanc rhwng 6-12 oed. Bydd pêl-fasged, pêl-droed, rygbi, criced, pêl-foli, hoci, athletau a llawer llawer mwy ar gael. Mae croeso i holl fechgyn a merched o unrhyw allu ymuno â'r holl weithgareddau. Mae angen cwblhau ffurflen gofrestru gan riant / gwarcheidwad.

Ysgol Gyfun Coed Duon, 25ain Gorffennaf - 18fed Awst (Llun i lau) £3.00 y dydd neu £10.00 yr wythnos.

Sport Caerphilly CB
Chwaraeon BS Caerffili

NOF'IO AM DDIM

O'r 25ain Gorffennaf i ddydd Gwener 2il Medi, bydd sesiynau nofio am ddim ar gael ar gyfer plant o dan 16 oed ddydd Llun i ddydd Gwener yn ein 5 pwll nofio ar draws CBS Caerffili. Yn ogystal â gallu nofio am ddim, gall plant o dan 16 oed gymryd rhan mewn gweithgareddau pwll rhad ac am ddim, gan gynnwys;

- Fflip a Hwyl
- Canŵio
- Pêl-foli
- Polo Dŵr
- Snorcelu
- Clwb anabledd
- â'n WATERWALKERZ NEWYDD

Bydd yr amserlen ar gyfer sesiynau nofio am ddim yn wahanol ym mhob 5 Canolfan Hamdden. Y Canolfannau Hamdden sy'n cymryd rhan yw Bedwas, Caerffili, Heolddu, Rhisga a Threcelyn. Rhaid i bob plentyn o dan 16 oed gael Cerdyn Smart Caerffili i gael mynediad i'r sesiynau am ddim hyn.

GWENER NOF'IO AM DDIM

Plymiwch i mewn bob dydd Gwener o fis Mehefin 17eg yn unrhyw un o'r pyllau nofio ar draws Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Mae dyddiau Gwener ar fin dod yn adnabyddus fel **GWENER NOFIO AM DDIM** lle gall yr holl deulu nofio **AM DDIM** mewn sesiynau neilltuo.

CANOLFAN HAMDDEN	SESIWN	AMSER
Caerffilli	Nofio am Ddim	12.00pm - 6.00pm
Trecelyn	Nofio am Ddim	6.00pm - 8.00pm
Heolddu	Nofio am Ddim Amser Cinio Dydd Gwener	1.15pm - 2.00pm
Heolddu	Nofio am Ddim Dydd Gwener (Pen Ddwfn)	4.30pm - 6.30pm
Rhisga	Nofio am Ddim	6.00pm - 7.45pm
Bedwas	Nofio am Ddim	5.00pm - 7.30pm

CERDYN SMART BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI

Cael mynediad i'ch canolfannau hamdden a llyfrgelloedd gyda sweip cerdyn. Cofrestrwch am **Gerdyn Smart Caerffili** am ffordd gyflymach, yn haws i gael mynediad i gyfleusterau yn eich canolfan hamdden a llyfrgell leol. Mae 'Cardiau Smart' ar gael i unrhyw un sy'n dymuno defnyddio canolfannau hamdden neu lyfrgelloedd Caerffili. Gyda Chardiau Smart Caerffili, gall blant o dan 16 oed gymryd rhan mewn gweithgareddau canolfan hamdden am bris gostyngol a hyd yn oed gael mynediad at rai gweithgareddau hamdden am ddim. Am ragor o wybodaeth cysylltwch â'ch canolfan hamdden neu lyfrgell leol heddiw.

SYDIC

Bydd **Canolfan Galw i Mewn Ieuenctid Senghenydd** yn cynnal Cynllun Haf Cwm Aber o 1af Awst - 12fed Awst yn SYDIC. Ar gyfer pobl ifanc 11 oed a throsodd, mae yna nifer cyfyngedig o lefydd ac mae angen cofrestru o flaen llaw. Mae wythnos cofrestru drwy gydol wythnos yr 22ain Gorffennaf.

Mae nifer o wibdeithiau a gweithgareddau wedi eu cynllunio, gan gynnwys; Gweithdai Recordio Cerddoriaeth, Gweithdai Coginio Iachus, Gweithdy Gwneud Jam, Parc Oakwood, Picnic a Barbeciw, Sglefrio Ia, Taith Sylfaen Hofrennydd Heddlu, Gweithdy Offer Reiat Heddlu, Hyfforddi Diffoddwr Tân, Taith San Ffagan, Cerdded y Ceunentydd a llawer llawer mwy.

Galwch i mewn i weld Gweithiwr/wraig SYDIC am fwy o fanylion neu ewch i **www.sydic.org.uk**

YOUTH 4U

Mae **Youth 4U** yn wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili i bobl ifanc, lle gallwch ddod o hyd i beth sy'n digwydd, y newyddion diweddaraf i bobl ifanc, eich hawliau, sut i ymuno â'r Fforwm Ieuenctid a llawer, llawer mwy!! Ewch i **www.caerffili.gov.uk/ieuenctid**

Mae'r Hub yn gweithio ar draws y fwrdeistref yn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf ac yn cynnig cyfleoedd gwych i bobl ifanc 11-25 blwydd oed, gan gynnwys chwaraeon, sesiynau harddwch, prosiectau, diwrnodau hwyl a llawer mwy.

Mae'r Islawr yn darparu gwybodaeth, cymorth, a gwasanaethau eiriolaeth i bobl ifanc 11-25 blwydd oed gan gyfeirio ac arwyddbostio i asiantaethau mwy arbenigol eraill yn ôl yr angen. Bydd gweithgareddau'r haf ar gael yn **Infoquest** ym **Mhontllanfraith** ac allan ar yr **Islawr Symudol**.

DIWRNOD CHWARAE CENEDLAETHOL

Mae **Diwrnod Chwarae** yn ddathliad o hawliau plant i chwarae. Mae'r digwyddiad yn cael ei ddathlu ar draws y wlad ar ddydd Mercher cyntaf ym mis Awst. Mae ymgyrch Diwrnod Chwarae eleni yw **SEFYLL I FYNY DROS CHWARAE!**

Mae digwyddiadau amrywiol yn cael eu cynnal ar draws y fwrdeistref yn ystod wythnos gyntaf mis Awst, gyda llawer o gyfleoedd chwarae **AM DDIM** i blant o bob oedran.

Bydd digwyddiadau eraill yn cael eu cynnal mewn siroedd cymdogol cyfagos, gweler **www.playday.org.uk** am restr lawn o ddigwyddiadau ar draws De Cymru.

- **Dydd Mercher 3ydd Awst** yng Nghae'r Capel, Bargod
- **Dydd Mercher 3ydd Awst** Ar Safle Chwarae Tanlan, Tredegar Newydd
- **Dydd Iau 4ydd Awst** ym Maes Lles Senghenydd
- **Dydd Iau 4ydd Awst** yn Nhir-y-berth, Parc Uchaf
- **Dydd Gwener 5ed Awst** yng Nghanolfan Gymunedol Pentwyn-mawr

HER DARLLEN

Dewch ynghyd
Dewch ynghyd ar gyfer Her Darllen yr Haf eleni!

O fis Gorffennaf, bydd 19 llyfrgell ar draws Caerffili yn croesawu plant i 'Circus Stars', Her Darllen Haf eleni ar thema'r syrcas, a fydd yn eich cadw yn darllen yn ystod gwyliau haf yr ysgol.

Bydd plant o bob oedran yn cael eu hannog i ddarllen chwe llyfr neu fwy o'u dewis, gyda phob plentyn sy'n cwblhau'r Her yn derbyn tystysgrif neu fedal, yn ogystal â chymhellion eraill. Bydd dau blentyn o bob llyfrgell yn cael eu gwahodd i fynychu seremoni cyflwyniad mawreddog ym mis Hydref, gydag un enillydd cyffredinol yn derbyn gwobr wych.

Bydd nifer o lyfrgelloedd hefyd yn trefnu cystadleuaeth themâu, sesiynau crefft ayb. Cysylltwch â'ch llyfrgell leol i ddarganfod beth sydd yn i'w gynnig!

TIMAU CHWARAE TAIR SIR

Bydd y **Timau Chwarae Tair Sir** yn cynnig sesiynau chwarae mynediad agored, o Ddydd Llun y 25ain Gorffennaf i Ddydd Iau'r 1af o Fedi. Mae'r sesiynau ar gyfer plant 8 -14 blwydd oed, mae croeso i blant o dan 8 oed ond rhaid iddynt fod yng nghwmni rhiant neu warcheidwad.

Bydd sesiynau yn Nhrecelyn, Maes-y-ffynnon, Tir-y-berth a Bargod.

DIWRNOD HWYL I'R TEULU

Mae digwyddiadau i'r holl deulu a drefnir gan y gymuned leol.

- **23ain Gorffennaf** yng Nghaeau Chwarae Sue Noakes, Ystrad Mynach
- **23ain Gorffennaf** yn Ysgol Gyfun Rhymni
- **13ain Awst**, Cae Rygbi Deri, Glynderw
- **3ydd Medi** yng Nghanolfan Ieuenctid Cefn Hengoed

GRŴP ANTUR CAERFFILI

Bydd diwrnodau gweithgareddau i bobl ifanc drwy'r haf.

CHWARAE ANTUR

Bydd y **Tîm Chwarae Antur** yn rhedeg sesiynau chwarae o'r 26ain Gorffennaf i'r 26ain Awst (Dydd Mawrth i Ddydd Gwener), bydd sesiynau yn cael eu cynnal; Treffilip, Tirphil a Thredegar Newydd.

Bydd hefyd gwibdeithiau ar gael ar y 12fed o Awst a'r 19eg o Awst. Rhaid i blant o dan 8 blwydd oed fod yng nghwmni oedolyn. Bydd bob diwrnod yn cael ei llenwi gyda chyfleoedd chwarae hwyl.

LLANCAIACH FAWR

Dydd Sul 10fed Gorffennaf
O gnu i ffabrig, o'r defaid i ben y bugail - cneifio, golchi, cardio a nyddu'r gwlân a'i wau mewn i het. A hyn oll mewn un diwrnod!

Dydd Sul 17eg Gorffennaf
Fel rhan o'r Mis Archeoleg, bydd Llancaiach Fawr yn cynnig taith archaeoleg o'r Maenordy a theithiau i'r safle cloddfa. Bydd gweithgareddau archeolegol i'r teulu yn ogystal â Bwrdd Darganfod i gloddiadau cynt.

Dydd Mercher 3ydd a **Dydd Mercher 17eg Awst**
Diwrnodau gweithgareddau i blant.

Dydd Sul 7fed Awst
Diwrnod y Brenin, dathlu ymweliad y Brenin Siarl I i Lancaiach yn 1645.

Mae'r llyfryn hwn wedi cael ei gynhyrchu gan **CMGG** a'r **Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd**. Mae'r llyfryn yn cynnwys arolwg o beth sydd ar gael i blant a phobl ifanc, am wybodaeth bellach am unrhyw un o'r cyfleoedd a gynhwysir, cysylltwch â'r **Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd**.

Mae **Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd (GGiD)** yn darparu cyngor a gwybodaeth am ddim ar ystod eang o opsiynau gofal plant, gweithgareddau hamdden a gwasanaethau cymorth i blant a phobl ifanc 0-25 oed, eu teuluoedd a'u gofalyddion. Mae'r gwasanaeth yn anelu at ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf, gywir ac sy'n cynnwys eich ardal leol. Mae gennym fas data chwiliadau ar ein tudalennau gwe sy'n darparu gwybodaeth sy'n cynnwys bwrdeistref sirol Caerffili i gyd.

Gwefan: **www.caerffili.gov.uk/ggid** neu **www.caerffili.gov.uk/ieuenctid**

Rhif Ffôn: **01443 863232**
E-bost: **ggid@caerffili.gov.uk**

Mae'r **Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd** ar gael o Ddydd Llun i Ddydd Iau 9:00am - 5:00pm a 4:30 ar Ddydd Gwener. Mae peiriant ar gael ar gyfer gwasanaethau tu allan i oriau, gadewch eich enw a'ch rhif a bydd rhywun yn eich ffonio nôl.

Yn cefnogi Gweithgareddau Gwyliau i blant a phobl ifanc

CYMDEITHAS MUDIADAU GWIRFODDOL GWENT

Rhif Elusen Gofrestredig: 1113558 • Cwmni cyfyngedig drwy warant 5590517

Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd
Family Information Service

CAERPHILLY COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
CAERFFILI

David Ganderton Graphic Design 01443 819148